

Y Bil Trethiant (Cymru)

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Adran arweiniol	Awdurdod Cyllid Cymru / Llywodraeth Cymru
Cynnig	Diwygiadau i bwerau ACC i rannu gwybodaeth yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017
Math o ddeddfwriaeth	Deddfwriaeth sylfaenol
Cam polisi	Cyflwynwyd y Bil ym mis Hydref 2026
Statws	Cwblhawyd

Amcanion polisi

1. Mae'r asesiad effaith hwn yn asesu effaith y cynigion ar blant a phobl ifanc hyd at 18 oed.
2. Mae'r Bil wedi'i lywio gan wyth mlynedd o brofiad gweithredol ACC, adborth gan y diwydiant a newidiadau deddfwriaethol y DU. Nod y cynigion yw egluro a moderneiddio Deddfau Trethi Cymru a sicrhau eu bod yn addas at y dyfodol er mwyn helpu i sicrhau prosesau casglu treth effeithiol a gwella trefniadau mewnol.
3. Mae Bil Trethiant (Cymru) 2026 yn gwneud cyfres o ddiwygiadau technegol a gweinyddol yn bennaf i'r Deddfau Trethi Cymru canlynol:
 - Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
 - Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017
 - Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017
4. Y Bil yw'r cam nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a gynhaliwyd rhwng 5 Tachwedd 2025 a 26 Ionawr 2026. Y bwriad yw gwneud yn siwr bod y Deddfau yn parhau i sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd gan Senedd Cymru, helpu trethdalwyr i'w deall a chynnal gweinyddiaeth effeithlon a theg. Nid yw'r Bil yn cyflwyno treth newydd nac yn newid amcanion polisi sylfaenol y trethi datganoledig presennol yn sylweddol.
5. Rydym wedi diweddarau'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant i adlewyrchu'r darpariaethau sy'n cael eu cyflwyno yn y Bil ar ôl ymgynghori a datblygu polisïau ymhellach. Er bod y cynigion yn rhai technegol a gweinyddol yn bennaf, maent wedi cael eu hasesu yn erbyn nodau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i BroTOCOLau Dewisol.
6. Drwy'r asesiad hwn, rydym wedi nodi sawl effaith anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn ymwneud yn benodol â sut y gall newidiadau i'r broses o weinyddu trethi, rhannu gwybodaeth, pwerau cydymffurfio a rheolau'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi effeithio ar:
 - Sefydlogrwydd ariannol aelwydydd a fforddiadwyedd tai
 - Iechyd yr amgylchedd a diogelwch ger safleoedd tirlenwi

- Refeniw cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi hawliau a llesiant plant
 - Gallu gweithredol sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant
7. Byddwn yn parhau i adolygu a mireinio'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant wrth i'r Bil fynd rhagddo, gan ystyried tystiolaeth sy'n dod i law yn ystod prosesau craffu a chynllunio gweithredu'r Senedd a sicrhau bod mesurau diogelu priodol yn cael eu cynnal.

Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

8. Nid ydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant na phobl ifanc am y rhesymau canlynol:
- Mae'r cynigion yn rhai technegol a gweinyddol yn bennaf, heb unrhyw newidiadau polisi uniongyrchol sy'n targedu plant.
 - Mae'r effeithiau a nodwyd yn rhai anuniongyrchol a chânt eu cyfryngu drwy drethdalwyr sy'n oedolion, sefydliadau neu amodau amgylcheddol.
 - Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a'r gwaith datblygu polisi dilynol ar ddulliau deddfwriaethol yn hytrach na llunio neu ddarparu gwasanaethau.
9. Serch hynny, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu cyfranogol lle nodir effaith uniongyrchol neu berthnasol. Yn ystod y broses o graffu ar y Bil a'i roi ar waith, byddwn yn parhau i ddefnyddio tystiolaeth berthnasol, gan gynnwys:
- canllawiau a Sylwadau Cyffredinol perthnasol CCUHP, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag Erthygl 3 (lles pennaf), Erthygl 16 (preifatrwydd), Erthygl 24 (iechyd) ac Erthygl 27 (safon byw).
 - Data gweithredol CThEF ac ACC: ar ddemograffeg trethdalwyr, hawliadau am ryddhad, cosbau ac ymddygiadau cydymffurfio, gan gynnwys achosion sy'n cynnwys busnesau teuluol ac elusennau.
 - Setiau data StatsCymru: Gan gynnwys cyfraddau tlodi plant, deiliadaeth tai yn ôl math o aelwyd ac agosrwydd at safleoedd tirlenwi.
 - Monitor Lles Plant a Phobl ifanc Llywodraeth Cymru: mae'n darparu data ar dai, incwm, iechyd, addysg ac amodau amgylcheddol sy'n effeithio ar blant.

Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

10. Rhestrir y darpariaethau ar ffurf gryno yn Rhan 1 o'r Asesiad Effaith Integredig hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am y diwygiadau arfaethedig yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil.

11. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r cynigion yn canolbwyntio ar faterion gweinyddol neu gyllidol ac maent yn debygol o gael effeithiau anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc yn hytrach na rhai uniongyrchol.

- Diogelu preifatrwydd (Erthygl 16) lle mae gwybodaeth warchodedig yn cael ei rhannu o dan y pyrth statudol newydd, gyda datgeliad dewisol, mynediad yn seiliedig ar rôl, cyfyngiadau ar ddatgelu o hynny ymlaen a sancsiynau troseddol yn cefnogi'r mesurau diogelu.
- Sicrhau bod lles pennaf y plentyn (Erthygl 3) yn cael ei ystyried lle gallai ad-dalu a chatau gorfodi gael effaith anuniongyrchol ar sefydlogrwydd yr aelwyd.
- Diogelu iechyd ac amgylchedd plant (Erthyglau 6 a 24) lle gall trethiant celloedd tirlenwi a phwerau arolygu o dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi gefnogi cydymffurfedd effeithiol a diogelu'r amgylchedd.
- Diogelu safon byw ddigonol (Erthygl 27) drwy ystyried a allai ad-dalu, llog a darpariaethau sy'n ymwneud â thrafodiadau eiddo preswyl gael effaith anghymesur ar deuluoedd â phlant.

12. Mae prif effeithiau CCUHP sy'n codi yn y cynigion a ddewiswyd fel a ganlyn:

Erthyglau neu Brocol Dewisol Confensiwn y Cenhedloedd ar Hawliau'r Plentyn	Yn gwella (X)	Yn herio (X)	Esboniad
Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn) Erthygl 4 (gweithredu'r confensiwn) Erthygl 16 (yr hawl i breifatrwydd)	X	X	Darpariaethau rhannu gwybodaeth Mae'r Bil yn caniatáu i ACC ddatgelu gwybodaeth warchodedig am yr ardoll ymwelwyr i brif gynghorau ar gyfer swyddogaethau ardoll ymwelwyr ACC ei hun. Mae'r Bil hefyd yn caniatáu datgelu gwybodaeth warchodedig i bersonau cymhwysol ar gyfer casglu a rheoli'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig. Gall gweinyddiaeth gyhoeddus sydd wedi'i thargedu'n well fod o fudd anuniongyrchol i blant drwy ariannu a darparu gwasanaethau'n effeithiol (Erthyglau 3 a 4). Ceir risg i breifatrwydd os caiff gwybodaeth sy'n ymwneud â phlant neu deuluoedd ei

			chyrchu neu ei datgelu'n amhriodol (Erthygl 16). Mae'r pyrth yn ddewisol, rhaid i ddatgeliadau fod yn angenrheidiol ac yn gymesur, bydd mynediad wedi'i gyfyngu, dim ond at ddibenion diffiniedig neu gyda chydsyniad ysgrifenedig ACC y caniateir datgelu o hynny ymlaen, ac mae datgeliad pellach heb awdurdod yn drosedd.
Erthygl 4 (gweithredu'r confensiwn)	X		Cymhwysu'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi 2016 at y Goron o ran y Dreth Trafodiadau Tir Mae'r Bil yn cywiro cyfeiriadau statudol ac yn rhoi'r hawliau adolygu ac apelio bwriadedig i'r Goron ar gyfer hysbysiadau gwybodaeth. Mae hon yn ddarpariaeth dechnegol sy'n cefnogi sicrwydd cyfreithiol a gweinyddiaeth dreth gyson. Ni nodwyd unrhyw her realistig i hawliau plant.
Erthygl 2 (dim gwahaniaethu) Erthygl 4 (gweithredu'r confensiwn) Erthygl 27 (safon byw ddigonol)	X		Enwebeion a lesioedd Mae'r Bil yn gwneud diwygiadau cyfyngedig fel y bydd rhyddhadau penodedig a rheolau cyfrifo ar gyfer trefniadau gwerthu ac adlesu ac ildio ac ail-roi yn gweithredu drwy gyfeirio at y perchennog llesiannol, gan gadw'r rheol gwrth-osgoi ehangach. Mae'r ddarpariaeth yn fasnachol yn bennaf ond gall gefnogi sefydliadau a thrafodiadau tai yn anuniongyrchol sy'n fuddiol i deuluoedd â phlant drwy atal rhwymedigaethau ychwanegol rhag codi o ddefnyddio ymddiriedolwr noeth neu enwebai yn unig.
Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn) Erthygl 27 (safon byw ddigonol)	X		Adlewyrchu diwygiadau i gyfraith lesddaliad yn y Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) Mae'r Bil yn darparu nad yw tâl yn cael ei godi ar drafodiadau breinio ar y cyd na hawl cynnig cyntaf cymhwysol ar gyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir. Drwy gael mwy o sicrwydd a chael gwared ar

			ganlyniadau anfwriadol cyfraddau uwch gall hynny gefnogi diogeleddd tai a fforddiadwyedd i lesddeiliaid sy'n cymryd rhan a'u teuluoedd yn anuniongyrchol.
Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn) Erthygl 27 (safon byw ddigonol)	X		Trafodiad A i A+B Mae'r Bil yn egluro, pan fydd annedd a ddelir gan A yn cael ei throsglwyddo i berchnogaeth ar y cyd A ac unigolyn arall B, nad yw A yn cael ei drin fel prynwr ar gyfer y dadansoddiad o gyfraddau preswyl uwch. Gall hyn gefnogi sefydlogrwydd aelwydydd a thai yn anuniongyrchol drwy atal cyfraddau uwch rhag codi o berchnogaeth barhaus A yn unig.
Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn) Erthygl 16 (preifatrwydd) Erthygl 24 (iechyd/amgylchedd)	X		Pwerau archwilio Mae'r Bil yn rhoi llwybr ychwanegol i ACC archwilio safleoedd busnes at ddibenion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, gan gynnwys archwiliadau heb gytundeb y meddiannydd na chymeradwyaeth y tribiwnlys a heb rybudd ymlaen llaw pan fyddai rhybudd yn cael effaith ddifrifol ar y broses o asesu neu gasglu'r dreth. Gall gweithredu'n gyflymach helpu i gadarnhau ffeithiau ynghylch gwarediadau tirlenwi heb awdurdod a helpu i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd plant yn anuniongyrchol. Nid yw safle busnes yn cynnwys safle a ddefnyddir fel annedd yn unig. Caiff meddianwyr wrthod rhoi mynediad heb gosb oni chafwyd cymeradwyaeth y tribiwnlys, ac mae ACC yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyfraith gyhoeddus.
Erthygl 4 (adnoddau) Erthygl 2 (dim gwahaniaethu)	X		Hysbysiadau gwybodaeth i gadarnhau a yw rhyddhad wedi cael ei dynnu'n ôl Mae'r Bil yn rhoi pŵer wedi'i dargedu i ACC ofyn am wybodaeth i gadarnhau a yw rhyddhad rhag y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'i dynnu'n ôl neu a yw ad-daliad penodedig wedi

			dod yn ad-daladwy ar ôl y cyfnod arferol ymholiad. Mae hyn yn cefnogi tegwch a gweithrediad effeithiol y system dreth. Gall ceisiadau am wybodaeth ymwneud â buddiannau preifatrwydd, ond mae'r pŵer o fewn fframwaith presennol y Ddeddf Rheoli a Chasglu Trethi bresennol, gan gynnwys cyfyngiadau statudol, goruchwyliaeth y tribiwnlys, cosbau a hawliau apelio, ac mae cyfyngiad cyfnod amser penodol arno.
Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn) Erthygl 27 (safon byw ddigonol)	X		Hawliadau ar gyfer rhyddhad gordaliad Mae'r Bil yn darparu ar gyfer addasu llog cysylltiedig pan roddir rhyddhad gordaliad llwyddiannus, yn ei gwneud yn ofynnol i ACC roi rhesymau ac adolygu neu apelio yn erbyn gwybodaeth pan nad yw'n rhoi effaith i hawliadau na newidiadau perthnasol, ac yn egluro bod llog taliadau hwyr yn adlewyrchu'r dreth sy'n ddyledus mewn gwirionedd ar gyfer pob diwrnod. Mae'r mesurau hyn yn gwella tryloywder, sicrwydd a thriniaeth deg a gallant leihau ansicrwydd ariannol i aelwydydd, gan gynnwys teuluoedd â phlant.

Cyfathrebu â Phlant a Phobl ifanc

13. Wrth i'r Bil fynd rhagddo, byddwn yn parhau i ystyried a yw ymgysylltu wedi'i dargedu â chynrychiolwyr plant neu sefydliadau sy'n eirioli dros blant yn gymesur os bydd y dystiolaeth yn dangos effaith fwy uniongyrchol neu berthnasol ar blant a phobl ifanc.

Monitro ac Adolygu

14. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei adolygu'n gyson wrth i'r Senedd graffu ar y Bil a'i roi ar waith. Bydd dystiolaeth berthnasol, sylwadau gan randdeiliaid, profiad gweithredol ACC ac unrhyw risgiau i ddiogelu data neu gydraddoldeb a nodwyd yn llywio diweddariadau, canllawiau, mesurau diogelu a gwaith monitro ôl-weithredu.